

Gwnewch eich Gwialen Lafant eich hun



Yn draddodiadol, defnyddir lafant ar gyfer ei arogl, ac fe'i gosodir efo lliain a dillad fel persawr, yn ogystal â chael ei ddefnyddio fel ymlid gwyfyn. Felly, mae'r persawr grymus hwn wedi'i ddefnyddio ers amser maith i wrthyrru pryfed a mosgitos, tra hefyd yn cynnig arogl hirhoedlog hardd i adnewyddu unrhyw ystafell.

I wneud eich Gwialen Lafant eich hun byddech angen:


- Rhuban - o leiaf 100cm o hyd
- Siswrn
- Lafant wedi'i dorri'n ffres - o leiaf 20cm o hyd, o ben y blodau i'r gwaelod.




1. Tynnwch yr holl ddail a gosod y coesau lafant allan mewn 2 res.



2. Clymwch y rhuban yn dynn o amgylch gwaelod y blodau.



3. Plygwch dros y coesau un ar y tro, gan eu gosod allan yn gyfartal. Yna rhedeg pen byrraf y rhuban ar hyd y coesau.



4. Dechreuwch wehyddu pen hiraf y rhuban o dan a thros bob coesyn.




5. Parhewch i wehyddu'r rhuban nes i chi gyrraedd gwaelod y blodau, gan dynnu'r rhuban yn dynn wrth i chi fynd.



6. Gan ddefnyddio dau ben y rhuban, clymwch gwllwm.



7. Torrwch y coesau i'r maint a ddymunir ac yna clymwch gwllwm i orffen.



8. Rydych chi wedi gorffen!